

Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol

Natural Resource Management Bulletin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhifyn 16 – Hydref 2014

Y Gronfa Natur

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi [cyhoeddi](#) y bydd £3 miliwn arall ar gael i wella prosiectau bioamrywiaeth ac i helpu cymunedau i ffynnu.

Mae'r deunaw o brosiectau yn amrywio o waith i wella dalgylchoedd afonydd ac ecosystemau morol, i brosiect adfer mawndiroedd yn Eryri, a phrosiect sy'n cynnwys cymunedau lleol i reoli coetiroedd ym Mannau Brycheiniog.

Mae rhestr lawn o brosiectau cydweithredol sy'n derbyn cyllid gan y Gronfa Natur i'w chael ar wefan Llywodraeth Cymru: [Gronfa Natur](#).

Cynhadledd 'Dyfodol Plentyn yng Nghymru'

Ar 26 Tachwedd 2014, bydd yr Adran Cyfoeth Naturiol yn cynnal cynhadledd 'Dyfodol Plentyn yng Nghymru' yn Stadiwm SWALEC, Caerdydd. Bydd y gynhadledd yn ystyried yr amgylchiadau lleol y bydd plant heddiw ac yfory yn cael eu magu ynddynt. Bydd yn archwilio'r heriau i gydnerthedd a ffyniant lleoedd, a'r effaith y gall y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector ei chael ar ragolygon lles yn y dyfodol. Mae'r gynhadledd hon yn dilyn y gynhadledd lwyddiannus *Gwneud y Gorau o Gyfoeth Naturiol Cymru yn yr 21ain Ganrif* yn 2013.

Bydd y gynhadledd yn creu cyfle i'r holl sefydliadau y mae eu gwaith yn ymwneud ag amgylchedd cymunedau lleol, neu'n effeithio neu'n dibynnu arno, i edrych ar y cymunedau'n fanylach o safbwynt plant heddiw ac yfory. Bydd yn archwilio'r ffyrdd y gall cymunedau gymryd perchnogaeth o'u cyfleoedd a'u heriau unigryw a, gan ddilyn dull *Cynefin*, yn dechrau trafodaeth rhwng teuluoedd o wahanol gymunedau a'r rheini sy'n gyfrifol am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Bydd trafodaeth ynglŷn â heriau byw, cael eich magu a gweithio mewn cymunedau gwledig, trefol a'r ardaloedd o gwmpas trefi yng Nghymru, gyda'r nod o gael syniadau a datrysiadau creadigol a chydweithredol yn ystod y diwrnod.

Os oes diddordeb gennych mewn dysgu rhagor am y gynhadledd a sut y gall pob un ohonom roi plant wrth wraidd ein gwaith i ddatblygu lleoedd cryf a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, cysylltwch â Sarah.Melkevik@wales.gsi.gov.uk

Twf Gwyrdd Cymru

Ar 9 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Ddatganiad Ysgrifenedig ar ei fwriad i ddatblygu cronfa Twf Gwyrdd ar gyfer Cymru. Mae'r gronfa arfaethedig Twf Gwyrdd yn anelu at gynyddu a chyflymu'r prosiectau i sicrhau buddsoddi gwyrdd yng Nghymru. Mae Datganiad y Gweinidog i'w gael ar: [Datganiad Ysgrifenedig - Twf Gwyrdd Cymru](#) Am ragor o wybodaeth ar Twf Gwyrdd Cymru, ewch i [Twf Gwyrdd Cymru](#)

Diweddaru y Polisi Newid Hinsawdd

Ar 21 Hydref, gwnaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Ddatganiad Llafar ar ddiweddaru'r Polisi Newid Hinsawdd gan gadarnhau blaenoriaethau ein dull newydd o fynd i'r afael â Newid Hinsawdd. Mae Datganiad y Gweinidog i'w gael yma: [Datganiad Llafar - Newid Hinsawdd](#) Am ragor o wybodaeth ar sut yr ydym yn mynd i'r afael â Newid Hinsawdd, ewch i [Newid Hinsawdd](#).

Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi gofyn i'r Athro Terry Marsden o Brifysgol Caerdydd arwain adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Bydd yr adolygiad yn ystyried dibenion y tirweddau dynodedig hyn yn gyntaf, cyn archwilio'r trefniadau llywodraethu mwyaf priodol er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn enghreifftiau rhyngwladol o ddatblygiad cynaliadwy. Bydd adroddiad yr adolygiad cael ei gyflwyno yn 2015.

Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei rannu'n ddau gam. Bydd cam un yn archwilio'r dynodiadau eu hunain a bydd cam dau yn dilyn trwy archwilio trefniadau llywodraethu tirweddau dynodedig yn sgil argymhellion y cam cyntaf i Weinidogion Cymru.

Cam Un

- manteision dosbarthu tirweddau dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad.
- dibenion y tirweddau dynodedig hyn.

Cam Dau

- trefniadau llywodraethu a rheoli'r tirweddau dynodedig hyn.
- sut orau y byddai unrhyw gorff/cyrff llywodraethu yn y dyfodol yn hyrwyddo cydweithredu a chydweithio, gan osgoi dyblygu.
- sut orau y byddai unrhyw gorff llywodraethu yn y dyfodol yn atgyfnerthu atebolrwydd a gallu lleol i wneud penderfyniadau.

Wrth wneud ei waith, a llunio'i adroddiad a'i argymhellion, bydd yn arbennig o bwysig casglu tystiolaeth gan randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd. Bydd gweithdai ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru i roi cyfle i gymunedau a defnyddwyr gyfrannu. Disgwylir i'r gweithdai i ystyried Cam Un yr adolygiad gael eu cynnal yn yr wythnos sy'n dechrau 10 Tachwedd. Edrychwch ar y wefan am leoliadau ac amserau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan [Dirweddau Dynodedig](#)

Gellir anfon unrhyw sylwadau sydd gennych trwy e-bost i:

designatedlandscapesreview@wales.gsi.gov.uk

neu drwy'r post i:

Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru
Trydydd Llawr, Craidd y De, CO4
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Mae'r panel yn derbyn cyflwyniadau a thystiolaeth hyd nes 27 Tachwedd.

Dylid anfon cwestiynau am yr adolygiad trwy e-bost i
designatedlandscapesreview@wales.gsi.gov.uk

Meysydd eraill o ddiddordeb

Bil Cynllunio (Cymru) wedi osod

Cafodd Bil Cynllunio (Cymru) ei osod gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Carl Sargeant ar 6 Hydref 2014.

Mae Bil Cynllunio (Cymru) yn cyflwyno cyfres o newidiadau deddfwriaethol, a hynny ar sail sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr ac ymgynghori eang. Ei nod yw cyflwyno diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system gynllunio yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn deg ac yn gadarn a'i bod yn galluogi datblygu. Ar y cyd â newidiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth, ac i bolisiau a chanllawiau, bydd y Bil yn helpu i ddarparu'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith y mae eu hangen ar Gymru, gan roi cyfle ar yr un pryd i ddiogelu ac i wella'n hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf ac i gefnogi defnydd o'r Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth ynglyn ewch i wefan Llywodraeth Cymru [Llywodraeth Cymru | Cynllunio](#)

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Cynllunio, ewch i: [Bwletin y Bil Cynllunio](#)

Dilynwch ni ar twitter:

#planningbillwales; #bilcynllunio
#positiveplanning; #cynlluniocadarnhaol

Datblygu Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Cymru

Gwahoddir rhanddeiliaid i gyfrannu at gais am dystiolaeth ar Effeithlonrwydd Ynni fel cam cyntaf i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Cymru.

Mae effeithlonrwydd ynni o fudd i gartrefi, busnesau a'r sector cyhoeddus, trwy arbed arian iddynt, trwy leihau peryglon diogelwch ynni, a thrwy gefnogi arferion busnes a ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy. Hon yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o gefnogi'r symudiad i system ynni carbon isel.

Mae gwella effeithlonrwydd ynni yng Nghymru yn her fawr, ond y mae'n gyfle anferth i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i ymdrin â'r her hon a gosod camau gweithredu i'w cymryd. Nid yw'r grym i weithredu ar effeithlonrwydd ynni wedi'i ddatganoli'n llwyr i Gymru, felly mae ein rôl wedi'i chyfyngu i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ei reoleiddio. Rydym yn adeiladu ar ein hymdrechion sylweddol ni a'n partneriaid hyd yn hyn.

Yn ogystal, mae gan Gymru fynediad at gamau gweithredu ar draws y DU trwy fentrau megis y Fargen Werdd a'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni.

Rydym yn cynnig datblygu strategaeth newydd sy'n ystyried rôl sefydliadau, busnesau a deiliaid tai eraill yn ogystal â rôl Llywodraeth Cymru o ran gyrru'r agenda hon.

Fel cam cyntaf rydym yn gofyn am dystiolaeth. Rydym yn dymuno'ch barn ar sut y gallem wella perfformiad effeithlonrwydd ynni yng Nghymru.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 12 Ionawr 2015.

Ewch i [Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni](#)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, e-bostiwch ni ar FuelPovertyandEnergyEfficiency@wales.gsi.gov.uk

Cymru Effeithlon

Ar 21 Hydref 2014, lansiodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Carl Sargeant y gwasanaeth Cymru Effeithlon, gwasanaeth newydd i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth dibynadwy i bobl er mwyn arbed ynni, gwastraff a dŵr. Mae Cymru Effeithlon yn darparu un pwynt cyswllt am wybodaeth am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon (h.y. ynni, gwastraff a dŵr).

Mae tair prif gydran i'r gwasanaeth:

1. Canolfan cyswllt Cymru Effeithlon yn swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nantgarw. Mae hon yn darparu man cyson y gall defnyddwyr gwasanaethau fynd iddo, gan symleiddio mynediad at yr ystod o wasanaethau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a'r DU ac eraill. Gall y tîm helpu pobl yng Nghymru i ddod o hyd i'r gefnogaeth gywir er mwyn dod yn fwy effeithlon, gan gynnwys gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael neu gyfeirio pobl at ystod o wasanaethau cefnogi.
2. Cyfres o wasanaethau, wedi'u caffael trwy contract fframwaith Cymru Effeithlon, sy'n diwallu anghenion y sectorau cyhoeddus, preifat a domestig/cymunedol. Mae gan y fframwaith ddarparwyr sy'n amrywio o unig fasnachwyr i fusnesau mawr, gan roi mynediad i ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru at y cymorth arbenigol angenrheidiol. Rydym wedi penodi 'rheolwyr cleientiaid' a fydd yn darparu cefnogaeth barhaus i ddefnyddwyr gwasanaethau, ac yn gweithio gyda darparwyr eraill i gael y gefnogaeth dechnegol y gallai fod ei hangen ar ddefnyddwyr gwasanaethau.
3. Mae contract fframwaith Cymru Effeithlon, a weinyddir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, hefyd yn galluogi holl sefydliadau'r sector cyhoeddus i gaffael cyngor a chefnogaeth yn hwylus ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithlon gan ystod o ddarparwyr, gyda chyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth.

Os oes diddordeb gennych ddarganfod yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig, gallwch ffonio 0300 123 2020 rhwng 9am a 5pm, mynd i wefan www.cymru.gov.uk/cymru-effeithlon neu e-bostio ResourceEfficientWales@Wales.GSI.Gov.UK

Cronfa Ddata Rhanddeiliaid Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Yng Nghymru

Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n cael eu cadw. Lansiwyd y cynllun deng mlynedd yn y Sioe Frenhinol eleni. I gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru, a chyfleoedd i fod yn rhan o'r Fframwaith, cofrestrwch eich diddordeb i fod yn rhan o'n cronfa ddata rhanddeiliaid yma:

[Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid](#)

Mynd â Bwyd a Diod Cymru i'r Byd



Bydd datblygu marchnadoedd allforio presennol a newydd ar gyfer cynnyrch bwyd a diod Cymru yn hanfodol er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu gwerthiant yn y sector bwyd a diod o 30% erbyn 2020.

Rhoddwyd rhaglen o ddigwyddiadau wedi'u cefnogi ar waith i hyrwyddo ansawdd cynnyrch bwyd a diod Cymru er mwyn cynhyrchu a llwyr newydd a phrofiadol o Gymru i ddatblygu masnach ddomestig a rhyngwladol.

Rydym yn edrych am frandiau / cwmnïau o safon i arddangos yn ein pafiliwn 'Bwyd a Diod Cymru' yn y digwyddiadau canlynol y rhoddir cymhorthdal ar eu cyfer ac felly sy'n darparu cyfle gwych i fusnesau gyrraedd eu marchnadoedd targed.

- Gulfood, Dubai – 8-12 Chwefror 2015
- Foodex, Tokyo, Japan – 3-6 Mawrth 2015
- IFE, ExCel, Llundain – 22-25 Mawrth 2015

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o: [Bwyd a Diod Cymru](#)

Neu drwy gysylltu â: bwyd-food@wales.gsi.gov.uk.

Gweithdy Cynllunio Morol Cenedlaethol Cymru ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig: Animeiddiad

Dro yn ôl, fe wnaethom gynnwys ein ffilm ar Gynllunio Morol yn e-fwletin Rheoli Cyfoeth Naturiol (NRM). Hefyd, fe wnaethom egluro'r hyn rydym yn ei wneud i ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Fel y gallwch chi gael cyfle i ddweud eich dweud, byddwn yn cynnal gweithdy i drafod y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn a'r camau nesaf i ddatblygu'r Cynllun. Os hoffech chi gymryd rhan, cofrestrwch ar ein gwefan.

O ganlyniad i'n hanimeiddiad ar Gynllunio Morol, mae'r diweddaraf yn ein cyfres yn canolbwyntio ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Mae'r ffilm fer hon yn dangos mor bwysig yw moroedd Cymru i'r rhywogaethau sy'n byw ynddyn nhw a'r amrywiaeth o gynefinoedd sy'n eu cefnogi ac yn ddiweddar, fe wnaethom gymryd camau i ddiogelu ein adar môr. Mae'r animeiddiad hefyd yn tynnu sylw at y rôl hanfodol y mae moroedd Cymru'n ei chwarae yn cefnogi ein heconomi a'n swyddi. [Ardaloedd Gwarchodedig Morol Animeiddiad](#)

Prif Weinidog Cymru'n dathlu Partneriaid Cymunedol Draig Tex – canolfan allforio tecstilau y trydydd sector cyntaf Cymru

Ar 18 Medi, agorwyd canolfan allforio tecstilau y trydydd sector cyntaf Cymru yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru. Mae Draig Tex, wedi'i leoli yng Nghonwy, yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd gan gonsortium o dri sefydliad dielw – Crest Co-operative, Seren Ffestiniog Cyf ac Antur Waunfawr. Mae pob un o'r mentrau cymdeithasol yn casglu ac yn didoli tecstilau ac yn gwerthu'r cynnyrch yn eu siopau priodol. Gweithiodd y tair menter yn flaenrol gyda chwmnïau allanol, cenedlaethol er mwyn allforio tecstilau. Fodd bynnag, maent bellach wedi dod at ei gilydd ac maent yn cydweithio i allforio'r tecstilau eu hunain. Y nod yw cadw gwerth tecstilau a dillad dieisiau yng Nghymru er mwyn cefnogi gwaith a gwerthoedd cymdeithasol y mentrau cymdeithasol, ac felly bod o fudd i gymunedau Cymru.

Mae'r cynllun yn helpu i leihau'r deunydd a anfonir i dirlenwi, yn cefnogi'r rheini sy'n byw mewn tldi, ac mae wedi creu swyddi lleol, ynghyd â chyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli sy'n helpu i baratoi pobl i ddychwelyd i'r farchnad waith.

Gallwch ddysgu rhagor am Draig Tex a'i bartneriaid cymunedol ar-lein ar <http://www.draigtex.com/cy/> (dolen allanol)

Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf

I ddysgu mwy am y rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, ewch i: [Rhedi Adnoddau Naturiol](#)

Mae'r tudalennau gwe yn cynnwys [Cwestiynau Cyffredin](#), [pecyn gwybodaeth](#) a rhai [astudiaethau achos](#).

Gallwch hefyd ddysgu am y datblygiadau diweddaraf ar Facebook a Twitter trwy ddilyn @WG_NatResMin a hoffi tudalen Facebook Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ymuno â'r rhestr bostio, e-bostiwch ni ar naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk